

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 8fed Fai 2017

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Terry Bullock, Marion Bettenev, Siân Godbert, Cyng. Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau Janet Charlton, Nick Corney

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Ebrill 2017.

[1]Ethol Cadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd y Cyngor.

[1.1]Ethol Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol ethol Gwawr Jones yn Is Gadeirydd y Cyngor

[1.2] Datganiad Derbyn Swydd

Llofnodwyd datganiad yn derbyn swydd gan yr aelodau a oedd yn bresennol.

[1.3] Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol Ddiwygiol Trefn 2016

Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol i ymrwymo i'r cod ymddygiad

[1.4] Mandad Banc HSBC

Penderfynwyd i'r aelodau canlynol a'r clercc fod ac awdurdod i lofnodi sieciau'r Cyngor, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Siân Godbert, E C Roberts

(1.5)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clercc at y sylwadau canlynol gan yr heddwaw Phil Gales. Yn dilyn pryderon gan y Cyngor, bydd yr heddlu yn cadw golwg ar foduron yn gôr yrru ar briffordd yr A5 ym Mhentre' Du

[1.6] Byrddau Picnic/Tan Dinas/Planhigion Pont-y-Pair, Gwesty'r Waterloo

Nodwyd bod y materion yn parhau.

Biniau baw cwn – Gan nodi cyflwr y biniau, y clercc i geisio biniau newydd.

[1.7] Creu Mynedfa Newydd I'r Neuadd Goffa

Y clercc i drefnu hysbysiad yn y wasg i gesio diddordeb gan adeiladwyr profiadol.

[1.8] Creu Swigod/Cae Llan

Dywedodd y clercc bod y tal oedd yn ddyledus i'r Cyngor am logi'r cae wedi ei dderbyn.

[1.9] Cais am gyfraniad gan Gyfeillion Ysgol Betws-y-Coed

Penderfynwyd cyfrannu £100.00 tuag at gostau insiwrans a gweithgareddau eraill

[2] Llwybr Cyhoeddus Pont y Mwynwyr

Dywedodd y clercc nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ynglŷn ag ysbwriel a baw cwn ar y llwybr

[2.1] Arwyddion 20 m.y.a. Ffordd yr A5 Pentre' Du

Cytunodd y Cyng. E Roberts I wneud ymholiadau pellach gyda'r asiant briffyrdd. Y clerch hefyd i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â marciau safle bws ar y fordd.

[2.2] Llinellau Gwyn Priffordd yr A5

Dywedodd y Cyng. E Roberts bod trefniadau i adnewyddu'r llinellau gwyn ymhen ychydig wythnosau.

[2.3] Coed Cae Llan

Cyfeiriodd y clerch at wybodaeth oddiwrth swyddog coedwigoedd y Cyngor Sir yn cadarnhau y bydd archwiliad i ddiogelwch y coed yn cael ei wneud.

[2.4] Tai Fforddiadwy

Dywedodd y Cyng. E Roberts bod trefniadau ar y gweill ar gyfer cyfarfod ynglŷn ar mater

Y brif Agenda

[2.5] Ceisiadau Cynllunio

Codi ports caeedig i'r edrychiad front, Blaenddol, 8 Dolydd Terrace, Pentre Du.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.6] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Ebrill 2017.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2017.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol

[1] Nid i'w eiddo'r Cyngor rhwng y blynyddoedd 2015 a 2016/17 yn cyd-fynd a'r gwariant gwirioneddol yn y flwyddyn ariannol.

[2] Nid yw'r taliad TAW £2016.24 wedi ei restru ar y ddogfen fisol.

[3] Ni chyflwynwyd y rheolau ariannol ar gyfer yr archwiliad.

Y clerch i weithredu argymhellion yr archwiliwr

[4] Penderfynwyd mabwysiadu'r rheolau ariannol a gyflwynwyd yn y cyfarfod

[d] Nodwyd cylchlythyr oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru ddyddiedig 20fed Ebrill 2017

[2.7] Sedd Wag y Cyngor

Y clerch i drefnu hysbyseb, dyddiad cau 8fed Fehefin 2017

[2.8] Nosweithiau APCE a'r Cynghorau Tref a Chymuned

Cytunodd y Cyng. Siân Godbert I gynrychioli'r Cyngor ym Mhlas y Brenin nos Fawrth yr 20fed Fehefin am 6.30 y.h.

[2.9] Etholiadau Lleol/Maes Parcio Pont-y-Pair, Mr Meirion Owen, 2 Dolydd Terrace, Pentre Du

Tra bu Mr Owen yn yr Orsaf Bleidleisio bu iddo dderbyn tocyn /cosb am barcio ei fodur. Y clerch i ddilyn y mater ymlaen gyda'r Cyngor Sir.

[3] Diffilibrydd/ Siop y Spar Ffordd yr A5

Penderfynwyd talu'r gost [£160 a TAW] ar gyfer cyflenwad trydan i'r diffilibrydd

[3.1] Cwmni Coupers Syrfeyors/Priswyr/Rhaeadr Ewynnol

Y clerch i wneud ymholiad ynglŷn â chostau os na fydd gostyngiad i'w gael yng ngwerthiant y dreth.

[3.2] Nodwyd y wybodaeth ganlynol:

APCE Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Gareth Wynne, Cadeirydd